

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2016-17

Gorffennaf 2017

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebo: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Diben.....	5
2.	Trosolwg	5
3.	Negeseuon allweddol.....	5
4.	Canfyddiadau'r arolygiad.....	6
5.	Adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a chanfyddiadau thematig	9
6.	Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith	12
7.	Llywodraethu.....	13
8.	Ymgysylltiad.....	14
9.	Arolygiadau, adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a gweithgareddau thematig	15

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio pob gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau yn fewnol ac allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith rydym yn anelu i:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Diben

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi ei gynhyrchu fel crynodeb o'r gweithgaredd a gynhaliwyd gan AGIC rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

2. Trosolwg

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGIC 32 o arolygiadau neu ymweliadau i leoliadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a oedd yn cynnwys:

- 2 arolygiad o ysbyty, roedd un yn arolygiad dilynol
- 4 arolygiad o bractisau cyffredinol
- 12 arolygiad o bractisau deintyddol, roedd un yn arolygiad dilynol
- 6 arolygiad o wasanaethau anabledd dysgu
- 5 ymweliad y Ddeddf Iechyd Meddwl
- 2 arolygiad o unedau iechyd meddwl
- 1 ymchwiliad i Farwolaeth yn y Ddalfa.

3. Negeseuon allweddol

Ar y cyfan, canfuwyd yn arolygiadau eleni bod gofal caredig a pharchus yn cael ei ddarparu i gleifion gan weithlu brwdfrydig ac ymroddedig. Sylwyd ar arweinyddiaeth a rheolaeth dda ar sawl achlysur. Fodd bynnag, amlygodd ein gwaith y materion canlynol sydd angen sylw pellach:

- Yr angen am wiriadau rheolaidd a ddogfennir o feddyginiaeth ac offer brys ar draws y gwasanaethau i gyd
- Yr angen i adolygu polisïau a gweithdrefnau ac asesiadau risg, e.e. tân ac iechyd a diogelwch, yn rheolaidd mewn lleoliadau gofal sylfaenol a sicrhau eu bod yn cael eu cyfathrebu a'u deall gan yr aelodau staff
- Yr angen i gael gwared ag anghysondebau o fewn meysydd gwasanaeth

- Y trefniadau ar gyfer sicrhau bod yr argymhellion a wneir gan AGIC yn cael eu gweithredu mewn modd amserol.

4. Canfyddiadau'r arolygiad

Yn ystod 2016-17 cynhaliodd AGIC amrywiaeth o waith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae nifer o themâu allweddol sydd wedi dod i'r amlwg drwy'r gwaith eleni. Crynhoir y themâu hynny isod.

Arolygiadau o ysbytai

Cynhaliodd AGIC ddau arolygiad o ysbyty ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ystod y flwyddyn. Y cyntaf oedd Ysbyty'r Sir gyda'r nod o ddilyn y cynnydd a wnaed ynglŷn â mynd i'r afael ag argymhellion a wnaed yn ein harolygiad blaenorol ym mis Chwefror 2015.

Canfuwyd bod gwelliannau wedi digwydd er mwyn creu amgylchedd mwy cyfforddus, bod gwell gwybodaeth ar gael i gleifion a bod y defnydd o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn fwy cyson. Fodd bynnag, nid oedd digon o gynnydd wedi digwydd gydag agweddau o'r profiad amser bwyd, anghenion ymataliad, asesu poen ac anghenion gofal iechyd y geg. Nid oedd y camau arfaethedig cysylltiedig ag ysgogiad priodol i gleifion â dementia wedi datblygu chwaith.

Ar ôl ymweliad i Ysbyty Brenhinol Gwent (Adran Argyfwng) ym mis Mawrth 2017, daethom i'r casgliad bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu. Roedd y cleifion yn siarad yn gadarnhaol ynglŷn â'u profiadau a gwelsom aelodau staff brwdfrydig ac ymroddgar yn cael eu harwain gan dîm rheoli uwch ymgysylltiol. Sylwyd hefyd ar welliannau i'r gwasanaeth, arloesedd a dysg yn cael ei dreialu a'i roi ar waith ar lefel adrannol a lefel y bwrdd iechyd.

Fodd bynnag, canfuwyd dau faes a oedd angen eu hadolygu ar unwaith er mwyn sicrhau bod diogelwch cleifion yn cael ei gynnal. Roedd y materion hyn yn ymwneud ag asesiadau risg ar gyfer y coridor dal a'r ffordd y defnyddiwyd y man dadebru.

Iechyd meddwl

Yn ystod y ddau arolygiad, cawsom gyfarfod timau ward brwdfrydig a oedd yn siarad yn gadarnhaol ynglŷn â'r cymorth yr oeddent wedi ei dderbyn gan ei gilydd a gan reolwyr y ward. Rhoesom sylwadau cadarnhaol ar ofal caredig a pharchus a oedd yn canolbwyntio ar y claf. Pan adolygwyd y defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Mesur Iechyd Meddwl, gwelsom lefelau cydymffurfio priodol.

Un maes o anghysondeb oedd rheoli meddyginiaethau. Er bod arferion da wedi eu gweld yn Ysbyty'r Sir, gwelsom nad oedd cyflenwad meddyginiaeth yn cael ei archwilio a'i reoli'n rymus yn St Cadocs. Gwnaed argymhellion hefyd er mwyn mynd i'r afael â'r amgylchedd, yr offer a'r cyfarpar yn y ddau ysbyty er mwyn gwella preifatrwydd ac urddas cleifion.

Practis Cyffredinol

Arolygwyd pedwar practis cyffredinol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn 2016-17. Daeth yr arolygiadau i gyd i'r casgliad bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu. Yn gadarnhaol, dywedodd y cleifion ym mhob un o'r meddygfeydd eu bod yn hapus â'r gwasanaeth a dderbyniwyd a dywedodd yr aelodau staff eu bod yn hapus yn eu swyddi ac yn teimlo eu bod yn cael cymorth da. Sylwyd hefyd bod safonau cadw cofnodion da yn 3 o'r 4 meddygfa a arolygwyd.

Fodd bynnag, canfuwyd meysydd i'w gwella y gellid eu categoreiddio yn y themâu canlynol:

- Roedd aelodau staff angen hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion a phlant mewn tair meddygfa.
- Roedd angen datblygu polisïau a gweithdrefnau, yn enwedig iechyd a diogelwch, asesu risg tân ac amddiffyn oedolion a phlant. Mewn cysylltiad â hyn, canfuwyd bod angen mwy o fecanweithiau ffurfiol er mwyn cyfathrebu'r polisïau hyn i'r aelodau staff er mwyn sicrhau dealltwriaeth a chydymffurfiad.
- Argymhellwyd bod angen i ddwy feddygfa sefydlu gweithdrefnau recriwtio ffurfiol.

Deintyddol

Cynhaliwyd 12 arolygiad o ddeintyddfeydd sy'n darparu triniaeth y GIG. Amlygodd yr arolygiadau hyn y themâu canlynol:

- Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus â'r gwasanaeth a ddarparwyd ym mhob un o'r arolygiadau
- Canfuwyd bod y rhan fwyaf o'r meddygfeydd yn cynnwys offer da, yn lân ac yn daclus a bod yr offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol
- Mewn llawer o achosion gwelsom fod trefniadau ar waith er mwyn defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel

- Roedd yr aelodau staff oedd yn gweithio yn y deintyddfeydd yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth gan y staff uwch
- Gallai'r deintyddfeydd wella argaeledd gwybodaeth cleifion gan gynnwys deunydd hybu iechyd, gwybodaeth am y ddeintyddfa a'r gweithdrefnau cwyno
- Gellid gwneud mwy er mwyn gofyn am adborth gan gleifion yn rhagweithiol
- Gwelsom fod angen gwella'r dull o gadw cofnodion mewn mwy na hanner yr arolygiadau
- Canfuwyd bod angen gwiriadau mwy rheolaidd o'r feddyginiaeth a'r offer ar gyfer argyfwng mewn chwe arolygiad
- Argymhellwyd bod angen i bum deintyddfa wella ansawdd y prosesau sicrwydd a rheoli, gan gynnwys archwilio, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau swyddogol, arferion gorau a'r rheoliadau.

Yn ystod ein harolygiadau, canfuwyd bod materion a oedd angen sicrwydd ar unwaith mewn dwy ddeintyddfa. Roedd y materion yn ymwneud â diogelwch yr amgylchedd, rheoli heintiau, rheoli meddyginiaethau a chadw cofnodion. Ymatebodd y ddwy ddeintyddfa'n gadarnhaol i'r canfyddiadau hyn ac maent wedi cymryd camau er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC fod camau wedi eu cymryd neu ar y gweill er mwyn rhoi sylw i'r argymhellion a wnaethom.

Anableddau dysgu

Yn ystod 2016-17 cynhaliodd AGIC chwe arolygiad o wasanaethau anabledd dysgu, roedd hyn yn cynnwys pum uned breswyl ac uned asesu a thriniaeth.

Ym mhob un o'r arolygiadau, gwelsom aelodau staff yn trin cleifion â charedigrwydd a pharch. Gwelwyd arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol yn y rhan fwyaf o'r gwasanaethau a arolygwyd a gwelsom fod yr aelodau staff oedd yn gweithio yno'n frwdfrydig ac yn ymroddedig i gyflawni'r canlyniadau gorau i gleifion.

Roedd ein harolygiadau'n amlygu anghysondeb yn safon y cynllunio gofal. Gwelsom enghreifftiau ardderchog a oedd yn fanwl iawn ac a oedd yn dangos yn glir ran y claf a'r perthnasau/gofalwyr yn y dasg o gynllunio gofal unigol sy'n canolbwyntio ar y claf. Fodd bynnag, gwelsom hefyd enghreifftiau o gynlluniau gofal anghyflawn nad oedd wedi eu llofnodi a/neu eu dyddio ac nad oeddent yn dangos yr un lefel o ofal sy'n canolbwyntio ar y claf. Byddem yn annog y bwrdd

iechyd i sicrhau bod enghreifftiau da yn cael eu trosglwyddo ar draws holl wasanaethau anabledd dysgu.

Materion eraill y canfuwyd yn yr arolygiad hwn bod angen i'r bwrdd iechyd weithredu arnynt ar unwaith oedd yr angen i sicrhau bod asesiadau risg cyfredol ar waith ar gyfer yr holl gleifion a bod yr aelodau staff yn cael cymorth i ddilyn hyfforddiant gorfodol, yn enwedig mewn dadebru a chynnal bywyd sylfaenol. Rydym wedi ein sicrhau bod camau buan wedi eu cymryd i ymateb i'r argymhellion hyn.

5. Adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a chanfyddiadau thematig

Tua diwedd y flwyddyn, gwnaeth AGIC ymgymryd ag arolygiad o'r trefniadau llywodraethu, gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau'r bwrdd iechyd ar gyfer rheoli a dysgu o:

- Gŵynion/pryderon o'r amser y cânt eu derbyn i'r amser y cânt eu datrys;
- Hysbysu am a rheoli digwyddiadau;
- Adolygiadau a gomisiynwyd;
- Argymhellion gan gyrff allanol;
- Cydymffurfiaeth â chanllawiau a Safonau Gofal Llywodraeth Cymru; a
- Bydd swyddogaeth y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion wrth ddarparu sicrwydd ynghylch diogelu a gwella diogelwch cleifion hefyd yn cael ei hystyried.

Ar y cyfan, canfuom y dangoswyd llywodraethu ac arweinyddiaeth effeithiol mewn perthynas â'r meysydd y gwnaethom eu harchwilio, ac ategwyd hyn gan ymrwymiad cryf y staff i ddysgu o bryderon a digwyddiadau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen rhagor o waith i wella amseroldeb yr ymatebion i gŵynion, i fynd i'r afael â'r defnydd anghyson o Datix ar gyfer cofnodi pryderon, ac ar gyfer y Pwyllgor Dysgu Corfforaethol i aeddfedu'n barhaus a dod yn bwyllgor effeithiol ledled y bwrdd iechyd.

Adolygiadau clinigol i farwolaeth yn y ddalffa – CEM Prescoed

Cynhaliodd AGIC un adolygiad clinigol i gynorthwyo gwaith yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth mewn perthynas ag achosion o farwolaeth yn y ddalffa.

Gwraidd achos y farwolaeth oedd cancr ar yr aren a oedd wedi lledaenu i'w esgyrn a'i ysgyfaint. Dim ond ar ôl i'r diagnosis gael ei wneud y rhagwelwyd y farwolaeth, ond nid oedd modd ei atal yn anffodus. Roedd tîm gofal iechyd CEM Brynbuga yn ymdrechu i ddarparu gofal effeithiol a thosturiol ac, o fewn cyfyngiadau'r system yr oeddent yn gweithio ynddi, llwyddasant i wneud hynny.

Yn anffodus, roedd annigonolrwydd yn yr esmwythâd o boen a'r urddas a brofwyd yn agos at ddiwedd oes. Y prif reswm am hyn oedd methiant gwasanaeth y carchar i drosglwyddo'r unigolion i uned a allai ddarparu gofal diwedd oes 24 awr priodol.

Roedd y problemau a gafwyd wrth ddarparu gofal diwedd oes yn cael eu dwysáu trwy ryddhau cleifion o'r ysbyty yn amhriodol. Mae hyn yn deillio o ddiffyg dealltwriaeth o gyfyngiadau'r cyfleusterau gofal sydd ar gael yn CEM Brynbuga. Mae'n amlwg bod staff clinigol y bwrdd iechyd a CEM yn wynebu heriau mewn sefyllfaoedd fel hyn, ond siomedig yw nodi bod y problemau hyn yn dal i fod yn bresennol o ystyried y cawsant eu nodi hefyd mewn adolygiad a gwblhawyd yn 2015-16. Ar ben hynny, oni chymerir camau i ddatrys y sefyllfa hon, mae'n debygol y bydd y diffygion yn y gofal a dderbynnir, a amlygwyd yn y ddau achos, yn ailadrodd eto yn y dyfodol.

Adroddiad Thematig Gwasanaethau Anabledd Dysgu 2015-16

Yn ystod 2016-17 cyhoeddodd AGIC adolygiad thematig¹ o wasanaethau iechyd y GIG i bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru. Nod yr adolygiad oedd dod o hyd i gryfderau cyffredin a meysydd i'w gwella, a gwneud argymhellion i fyrddau iechyd. Mae'n amlygu arferion da hefyd er mwyn cynorthwyo gwella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl sydd ag anabledd dysgu yng Nghymru. Mae canfyddiadau allweddol ar gyfer Cymru isod:

¹ <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/161208ldreviewcy.pdf>

- Roedd ein canfyddiadau'n gadarnhaol gan mwyaf ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir gan dimau iechyd anabledd dysgu cymunedol
- Canfuom fod angen gwella gwasanaethau preswyl y GIG i bobl ag anableddau dysgu yn sylweddol mewn sawl maes
- Canfuom fod pobl yn derbyn gofal unigol da fel arfer gan aelodau staff a oedd yn gwneud eu gorau i ofalu am gleifion
- Anaml yr oedd gofal i gleifion yn cael ei danategu gan drefniadau rheoli a staffio da.

Mae angen i'r holl fyrddau iechyd ystyried pwrpas lleoliadau preswyl y GIG ar gyfer anableddau dysgu a ph'un a yw'r gofal sy'n cael ei ddarparu yn y sefydliadau hyn yn ddim ond gofal iechyd. Os nad yw, dylai byrddau iechyd ystyried p'un a yw model gofal cymdeithasol yn fwy priodol.

Adroddiad Thematig Gwasanaethau Offthalmoleg 2015-16

Yn ystod 2016-17 cyhoeddodd AGIC adolygiad thematig² o Wasanaethau Offthalmoleg. Bwriad yr adolygiad oedd edrych ar draws ffiniau gofal sylfaenol ac eilaidd er mwyn archwilio'r ffordd yr oedd darparwyr yn cyflwyno ac yn datblygu gwasanaethau. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar Ddirywiad Macwlaidd 'gwlyb' sy'n gysylltiedig â henaint, oherwydd y peryglon cysylltiedig ag unrhyw oedi yn y driniaeth. Roedd y canfyddiadau allweddol o'r adolygiad fel a ganlyn:

- Nid oes gan y gwasanaethau gofal llygaid ar draws Cymru ddigon o gapasiti mewn gofal eilaidd i ateb y galw presennol
- Gall absenoldeb gweithwyr allweddol olygu nad yw rhannau o'r llwybr gofal yn gweithio'n effeithiol, gan gynyddu'r risg o niwed potensial y gellid ei osgoi i gleifion
- Mae angen gwell gwybodaeth ar fyrddau iechyd ynglŷn â'r bwlch rhwng galw a chapasiti er mwyn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â chynllunio'r gweithlu

² <http://hiw.org.uk/docs/hiw/reports/170131opreviewcy.pdf>

- Clywsom fod perthynas waith wael rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd mewn rhai o ardaloedd y bwrdd iechyd wedi rhwystro ymdrechion i wella'r gweithio ar y cyd
- Gwelsom rai mentrau newydd ar draws Cymru a oedd yn ymwneud â chyflwyniad gwasanaethau Dirywiad Macwlaidd 'gwlyb' sy'n gysylltiedig â henaint, gan gynnwys cyflwyno chwistrellwyr anfeddygol. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd yn y gwaith o ddatblygu'r mentrau hyn wedi bod yn gyson ar draws y byrddau iechyd.

Mae angen i bob bwrdd iechyd ddeall bod angen datblygu'r gwasanaethau ymhellach er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael er mwyn cryfhau seilwaith a chynaliadwyedd gwasanaethau gofal llygaid.

6. Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith

Camau dilynol

Ar ôl pob un o'n harolygiadau, cyflwynwyd adroddiad arolygu gyda'n canfyddiadau. Os canfuwyd bod angen gwelliant, roedd yn ofynnol hefyd i'r bwrdd iechyd neu'r practis roi cynllun gofal i ni yn egluro'r ffordd yr oeddent yn bwriadu gwneud y gwelliannau. Eleni, cynhaliwyd dau arolygiad dilynol er mwyn gwneud yn siŵr bod y cynlluniau gwella wedi eu rhoi ar waith.

- Deintyddfa Wysome, Parry and Associates Dental Practice – Yn ystod ein harolygiad cychwynnol ym mis Gorffennaf 2016 ni allwyd ein bodloni bod y ddeintyddfa'n cyrraedd y safonau angenrheidiol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol. Canfuwyd nifer o bryderon sylweddol ynglŷn â diogelwch yr amgylchedd, rheoli heintiau, rheoli meddyginiaethau a chadw cofnodion. Roeddem yn pryderu i'r fath raddau nes i ni ddychwelyd ym mis Medi 2016. Gwelwyd gwelliannau amlwg a nodedig mewn nifer o feysydd ac roedd modd i ni ddod i'r casgliad bod ein pryderon yn cael sylw haeddiannol.
- Ysbyty'r Sir – Gwelsom fod gwelliannau sylweddol mewn rhai achosion, wedi digwydd mewn nifer o feysydd ond roedd yn siomedig dychwelyd mewn 21 mis ar ôl yr arolygiad gwreiddiol a gweld nad oedd nifer o'r camau arfaethedig yn y cynllun gwella wedi eu rhoi ar waith.

Sicrwydd ar unwaith

Pan ganfuwyd perygl i ddiogelwch cleifion a oedd angen camau ar unwaith, cyflwynwyd llythyrau i'r bwrdd iechyd a'r practisau yn unol â phroses sicrwydd ar unwaith AGIC.

Yn ystod 2016-17 cyflwynwyd wyth llythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd. Roedd hanner y llythyrau hyn yn ymwneud â'r arolygiadau anabledd dysgu a darperir mwy o fanylion yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Roedd y gweddill yn ymwneud â dwy ddeintyddfa, Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty'r Sir, fodd bynnag nid oes themâu y gellir eu hadnabod, gan fod y materion i gyd yn unigryw i'r gwasanaeth a arolygwyd. Cymerwyd camau prydlon er mwyn rhoi sylw i'r holl faterion a ganfuwyd.

7. Llywodraethu

Yn ystod 2016-17 mae'r bwrdd iechyd wedi cael nifer o gyfleoedd i ddangos ei fod yn sefydliad sy'n dysgu.

Mae Rheolwr Perthynas AGIC ac aelodau staff eraill o AGIC wedi mynychu cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion y bwrdd iechyd. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi eu trefnu'n dda a cheir thrafodaeth fanwl a heriol. Mae'r ffordd y mae'r pwyllgor hwn yn gweithio o fewn strwythur cyffredinol y bwrdd er mwyn uwchgyfeirio materion pan fo angen hefyd yn amlwg.

Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod gan y pwyllgor swyddogaeth ffurfiol yn y gwaith o arolygu gweithrediad argymhellion AGIC. Mae hyn am nad yw'n ymddangos bod ein hadroddiadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd yn y pwyllgor, gan nad oes unrhyw gyfeiriadau at ein harolygiadau Gofal Eilaidd ym mhapurau'r pwyllgor. Yng ngoleuni'r diffyg cynnydd a ganfuwyd yn yr arolygiad dilynol yn Ysbyty'r Sir, mae'n bosibl yr hoffai'r bwrdd ystyried arolygu'r trefniant hwn.

Mewn perthynas ag arolygiadau Gofal Sylfaenol, mae AGIC wedi mynychu is-bwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion y maes deintyddiaeth yn rheolaidd a byddem yn nodi bod y trefniant hwn yn rhoi cymorth sylweddol i'r gwasanaeth o ran paratoi ar gyfer arolygiadau AGIC, dysgu ar y cyd ar draws y gwasanaeth a thracio cwblhad cynlluniau gwella. Mae AGIC yn deall y bydd trefniant tebyg yn cael ei roi ar waith ar gyfer Practis Cyffredinol.

8. Ymgysylltiad

Yn ystod y flwyddyn, mynychodd Rheolwr Perthynas AGIC nifer o gyfarfodydd y bwrdd iechyd, gan gynnwys cyflwyno adroddiad blynyddol 2015-16 y bwrdd iechyd ym mis Mehefin 2016, mynychu cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion a chyfarfod gyda'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd ym mis Mai 2016. Mae'r bwrdd iechyd wedi croesawu ein presenoldeb ac wedi ymgysylltu'n adeiladol bob amser.

Mae gohebiaeth rhwng AGIC a'r bwrdd iechyd yn cael ei thrin mewn modd amserol a boddhaol bob amser, gan gynnwys ymatebion i bryderon cleifion sydd wedi eu hamlygu i ni.

9. Arolygiadau, adolygiadau arbennig, ymchwiliadau a gweithgareddau thematig

Arolygiadau o Ysbytai

1. Ysbyty'r Sir (Arolygiad Dilynol)	15 Tachwedd 2016
2. Ysbyty Brenhinol Gwent	7 Mawrth 2017

Arolygiadau o Bractisau Cyffredinol

3. Meddygfa South Street, South Street, Bargoed	19 Hydref 2016
4. Canolfan Feddygol Markham, James Street, Coed-duon NP12 0QN	20 Hydref 2016
5. Meddygfa Aber, 30 Thomas Street, Caerffili. CF83 4AZ	8 Rhagfyr 2016
6. Meddygfa Court House, Heol Bro Wen, Caerffili. CF83 3GH	13 Rhagfyr 2016

Arolygiadau Deintyddol

7. Wysome, Parry and Associates, 36 The Parade, Cwmbrân. NP44 1PT	11 Gorffennaf 2016
8. Deintyddfa Rhisga, 3 Y Stryd Fasnachol, Rhisga. NP11 6AW	21 Gorffennaf 2016
9. Deintyddfa Oasis (Casnewydd), 6a Heol Caerffili, Basaleg, Casnewydd. NP10 8LE	27 Gorffennaf 2016
10. Deintyddfa Mr Evans a Mr Brunswick, Casnewydd. NP19 8EA	12 Medi 2016
11. Wysome, Parry and Associates, 36 The Parade, Cwmbrân. NP44 1PT (Arolygiad dilynol)	22 Medi 2016
12. Deintyddfa Clive Street, 4 Clive Street, Caerffili. CF83 1GE	3 Hydref 2016
13. Delgrade Ltd, Deintyddfa Bryntirion, 23 Sir Ivors Road, Pontllanfraith. NP12 2JH	11 Hydref 2016
14. Deintyddfa P A Hawkins ac L A Griffiths, 11 Teras yr Orsaf, Caerffili. CF83 1HD	8 Tachwedd 2016
15. Deintyddfa Parklands, Bowls Terrace, Caerffili. CF83 2RD	5 Rhagfyr 2016
16. Newport Orthodontic Centre, 28 Clytha Park Road, Casnewydd. NP20 4PA	11 Ionawr 2017
17. Caerphilly Orthodontics Ltd, Deintyddfa, 5 Stryd Thomas, Caerffili. CF83 4AU	18 Ionawr 2017
18. Deintyddfa The Grove, Ystrad Mynach. CF82 7AN	7 Mawrth 2017

Arolygiadau Anabledd Dysgu

19. Gwasanaeth preswyl a reolir gan AB	24 Mai 2016
20. Llanfrechfa Grange, Cwmbrân	26 Mai 2016
21. Mitchell Close, Cwmbrân	6 Mehefin 2016
22. Gwasanaeth preswyl a reolir gan AB	16 Mehefin 2016
23. Gwasanaeth preswyl a reolir gan AB	20 Mehefin 2016
24. Gwasanaeth preswyl a reolir gan AB	23 Mehefin 2016

Arolygiadau monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

25. Ysbyty St Cadocs (4 ymweliad)	25 Hydref 2016
29. Ysbyty'r Sir	15 Ionawr 2017

Arolygiadau Unedau Iechyd Meddwl

30. Ysbyty St Cadocs	25 Hydref 2016
31. Ysbyty'r Sir	15 Ionawr 2017

Ymchwiliad – Marwolaeth yn y Ddalfa

32. CEM Prescoed	Mai 2016
------------------	----------